

RYDYM YN RECRIWTIO

Ymunwch a'r tim yn Hamdden Sir Ddinbych





Swyddog Cefnogi Systemau Hamdden

Sut i wneud cais:

Lleoliad: Prif Swyddfa Hamdden Sir Ddinbych, Dinbych / Canolfan Hamdden Y Rhyl

Cyflog: Gradd 9, £32,234 - £35,745

Oriau: 37 yr wythnos

Contract: Cyfnod penodol o 12 mis dros gyfnod mamolaeth

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer secondiad yn y swydd hon dderbyn caniatâd eu rheolwr cyn cyflwyno cais.

Dyddiad Cau: 27ain Tachwedd

Dyddiad Cyfweliad: 7fed Rhagfyr

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy'r wefan www.hamddensirddinbych.co.uk. Ar gyfer dulliau eraill cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn Gwmni Masnachu Cyfyngedig drwy Warant sy'n eiddo i'r Cyngor, ac felly caiff ffurflenni cais eu gweinyddu gan Gyngor Sir Ddinbych.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais trwy'r wefan er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

Llythyr gan y Rheolwr Gyfarwyddwr

Helo, fy enw i yw Jamie Groves, a fi yw Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Am fod gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n Cwmni, roeddem yn credu yr hoffech gael ychydig o wybodaeth amdanom ni.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â Hamdden Sir Ddinbych Cyf, gan ein bod yn Gwmni newydd gyda thîm sefydledig, brwdfrydig ac ysgogol, sydd â diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef enw da o brofiadau gwych yn ein cyfleusterau i gyd a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Mae ein hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r safon orau i gwsmeriaid yn parhau o un flwyddyn i'r llall, ac mae'r rhaglen dreigl hon o fuddsoddiad yn ein cyfleusterau wedi arwain at enw da am ddarparu cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a hamdden i'n preswylwyr ac ymwelwyr, sydd yn cael eu cymharu â'r rhai gorau yn y sector breifat. Mae ein saith Canolfan Hamdden yn cynnig cyfarpar campfa o'r radd flaenaf ac ystod eang o ddosbarthiadau ffitrwydd. Ar draws y sir, mae gennym chwe pwl nofio, yn ogystal â neuaddau chwaraeon a chaeau aml dywydd.

I'r rheiny sydd yn chwilio am ddiwrnod llawn hwyl, mae gennym barc dŵr SC2 gyda Tag Ninja yn y Rhyl, y Nova – ein lleoliad orau i ymwelwyr ym Mhrestatyn, a Chanolfan Bowls Gogledd Cymru. Rydym yn cynnig bwyd arbennig a choctêls ym Mwyty a Bar 1891 yn y Rhyl, neu bitsa a gwydraid oer o win gwyn yn yr haul yn y Cwt y Traeth ym Mhrestatyn. I'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y celfyddydau, efallai hoffech ymweld â Chanolfan Grefft Rhuthun, Canolfan ar gyfer y Celf Cymhwysol gyda tair oriel yn dangos celf gymhwysol cenedlaethol a rhyngwladol orau. Mae gan ein tîm Cymunedau Actif prysur gyfoeth o brofiadau yn eu sectorau eu hunain, a gyda'i gilydd maent yn cyfuno eu sgiliau i gynnig rhaglen amrywiol o ansawdd uchel, a chyfleodd hamdden cynhwysol. Mae pawb wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid, felly os mai cynnal parti pen-blwydd neu helpu rhywun wella eu hiechyd a ffitrwydd ydyw, rydym bob amser yn barod i helpu.

Ein staff sy'n sail i'n llwyddiant, ac mae gennym dîm ac ethig gwych yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Rydym yn cynnig cyfleoedd eang i hyfforddi a datblygu gyrfa, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein staff yn hapus yn eu rôl. Os ydych yn angerddol dros ddarparu gwasanaeth rhagorol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch, gyda'r awydd i helpu cydweithwyr a chwsmeriaid, yna byddwch yn gartrefol iawn gyda ni.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



'Darparu cyfleoedd hamdden hygyrch o safon uchel sy'n denu lefelau cyfranogi uchel, a gwella lles ein trigolion ac ymwelwyr'



Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg; sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol a llawn cymhelliant sydd â diwylliant o ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel a rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef cyfleusterau uchel iawn eu parch a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'n staff ymrwymo i;

- Ddarparu gwasanaeth o safon ragorol bob amser
- Sicrhau eu datblygiad eu hunain a datblygiad ein busnes
- Gweithio'n hyblyg ar draws safleoedd lle bo angen
- Cefnogi gwaith tîm, cefnogi eu cydweithwyr a'n cwsmeriaid

Mae ein gweithlu yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bawb sy'n gweithio i Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth campfa am bris gostyngol, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, hawl i wyliau blynyddol hael (gyda chyfle i brynu mwy) a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiant gyrfa a secondiadau.

Ein Pobl | Ein Busnes | Ein Cymuned



Swydd Ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Swyddog Cefnogi Systemau Hamdden

Gradd: 9

Cwmni: Hamdden Sir Ddinbych

Adran: Gweithrediadau a Chefnogi Busnes

Yn gyfrifol i: Swyddog Arweiniol – Gweithrediadau a Chefnogi Busnes

Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi: 03840 / Hydref 2020

Pwrrpas y Swydd:

Pwrrpas allweddol y rôl yw dyrannu cefnogaeth a datblygu systemau cwsmeriaid blaen y tŷ drwy gydol y Cwmni, gan sicrhau ei bod yn ddi-dor i greu siwrnai cwsmer gwell, a darparu swyddogaethau gwell i gefnogi amcanion gweithredol a strategol y Cwmni. Bydd y rôl yn canolbwyntio ar ddatblygu'r systemau hyn wrth ganolbwyntio ar y cwsmer, drwy ymgysylltu gyda staff ar bob lefel o'r Cwmni i gyrraedd y nod a ddymunir. Mae'r rôl yn hollbwysig wrth sicrhau casgliad incwm a thwf cysylltiedig mewn incwm ar dros pob faes busnes a llinellau incwm o fewn y Cwmni i werth o tua £10 miliwn.

Yn fwy penodol, pwrrpas y rôl yw:

- Dyrannu systemau datblygu cefnogaeth drwy gydol y Cwmni, yn unol ag amcanion gweithredol a strategol y Cwmni
- Defnyddio systemau cwsmer blaen y tŷ i gynnal a monitro perfformiad ymhob rhan o bortffolio'r Cwmni, darparu cefnogaeth busnes dyddiol a gwybodaeth i'r Uwch Dîm Rheoli, gan eu gwneud yn ymwybodol o eithriadau mewn perfformiad
- Darparu sicrhau ansawdd ar draws ystod eang o ardaloedd i sicrhau bod y Cwmni yn cyflawni ei nodau a osodwyd
- Darparu cyngor, cefnogaeth a chanllaw ar draws y Cwmni ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad

Prif Gyfrifoldebau

- Bod yn gyswllt systemau allweddol yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf, a darparu gweinyddiaeth systemau ar draws ystod eang o systemau blaen tŷ seiliedig ar hamdden (e.e. System Canolfan Hamdden XN, system Tag/parc dŵr, Gohebiaeth Cwsmer Datahub ac ati). Bydd hyn yn cynnwys elfennau adeiladu ac adrodd ar draws yr ystod o systemau hyn.
- Ymgymryd â rôl gwelliant o fewn y Cwmni drwy ddatblygu, a chynnal a chadw systemau cwsmeriaid, gan adrodd yn rheolaidd o'r systemau hyn i Bennaeth Llywodraethu a Chefnogaeth Busnes y Cwmni, a'r tîm Rheoli Gweithredol ehangach hefyd.
- Gan ddefnyddio'r systemau hyn, gan weithio'n rhagweithiol gyda'r tîm Rheoli Gweithredol i geisio nodi ffyrdd newydd o weithio a herio'r dulliau darparu presennol er mwyn un ai lleihau costau, cefnogi cynnydd yn galw am wasanaeth, neu wella profiad y cwsmer.
- Darparu cefnogaeth ddyddiol i'r Pennaeth Llywodraethu a Chefnogaeth Busnes ar drefniadau rheoli contractau rhwng y Cwmni a Chyngor Sir Ddinbych.
- Rheoli 2 aelod o staff sy'n cefnogi gyda rhedeg y systemau yn ddyddiol o fewn y Cwmni.



- Cydlynu adroddiadau perfformiad misol i'r Pennaeth Llywodraethu a Chefnogaeth Busnes.
- Chwarae rôl allweddol yn arferion diogelu'r Cwmni, monitro cydymffurfiaeth diogelu drwy bortffolio'r Cwmni ac adrodd yn ôl i'r grŵp Diogelu.
- Monitro a gwerthuso'r broses 1-1 / rheoli Gwerthuso Perfformiad i wella perfformiad y Cwmni. Sicrhau bod gan bob aelod o staff amcanion gwerthuso yn gysylltiedig â Chynllun Busnes y Cwmni.
- Monitro absenoldeb salwch a monitro ymyraethau gyda'r tîm rheoli ehangach i sicrhau bod lefelau'n lleihau a pherfformiad yn cynyddu.
- Cydlynu a gweithredu TGCh a phrosiectau gwella ar gyfer y Cwmni.
- Cefnogi'r tîm rheoli ehangach o fewn y Cwmni gyda gofynion systemau ac adroddiadau gan ddefnyddio patrymau cwsmer o systemau ac i ddatblygu nwyddau a chynigion y Cwmni fel sy'n ofynnol.

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyffroddiant a Phrofiad

- Dylai deiliad y swydd fod â chymhwyster cydnabyddedig safon HNC neu gyfwerth. Hanes blaenorol o fewn y maes gyda 5 mlynedd o brofiad perthnasol, o leiaf.
- Dylai deiliad y swydd fod a phrofiad o reoli staff o fewn amgylchedd datblygu systemau
- Mae profiad o gynllunio busnes a rheoli perfformiad ar lefel strategol yn hanfodol, ynghyd â'r gallu i ddangos datblygiad systemau i gefnogi nodau'r sefydliad
- Gwybodaeth gynhwysfawr o feddalwedd cyfrifiadurol (e.e. pecynnau Microsoft Office), ac yn fwy penodol, dealltwriaeth fanwl o Microsoft Excel
- Y gallu i ymgyswrtio â thechnoleg newydd.
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol â staff ar bob lefel, y cyhoedd a sefydliadau eraill yn ôl y gofyn.

Amodau Gwaith Arbennig

- Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fod â'r gallu i deithio ar draws Sir Ddinbych, a thelir lwfans am hyn, ond mae hyn yn cael ei adolygu.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o fewn terfynau amser tynn ac o fewn cyllidebau penodol.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau tasgau heb fawr o oruchwyliaeth yn ôl y gofyn, ac mae'n rhaid i'r unigolyn allu profi ei fod yn gallu gweithio ar ei liwt ei hun.
- Gallu blaenoriaethu gwaith, delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a bodloni terfynau amser.



Dimensiynau

Bydd y swydd yn gyfrifol am reoli'r systemau canlynol, ynghyd â'u prosesau:

- **XN Leisure** – System blaen tŷ a ddefnyddir mewn canolfannau hamdden, sy'n darparu cyfleusterau archebu a swyddogaeth dalu debyd uniongyrchol (tua £1.8 miliwn o incwm i'r busnes).
- **Roller** – system blaen tŷ a ddefnyddir yn SC2 i alluogi swyddogaeth archebion a gwerthiant nwyddau (tua £2 filiwn o incwm i'r busnes).
- **Cascade** – pecyn dadansoddi sy'n darparu adroddiadau manwl ar draws y portffolio hamdden, gan gynnwys swyddogaeth creu anfoneb a dilyn dyledion yn awtomatig (tua £3.1 miliwn i incwm i'r busnes).
- **Datahub** – pecyn cyfathrebu gyda chwsmeriaid gyda'r nod o gyfathrebu'n gyffredinol gyda chwsmeriaid a marchnata, gan gefnogi targedau incwm ar draws y Cwmni (tua £10 miliwn o incwm ar draws y busnes).
- **Pelican Pi** – Darparu pecyn rheoli trosfwaol i elfennau bwyd a diod y Cwmni, gan gefnogi'r broses o archebu nwyddau, creu bwydlenni, ac ati (tua £1.5 miliwn i incwm i'r busnes).
- **Our People** – pecyn cyfathrebu staff, sy'n darparu gohebiaeth i 400+ o staff ar draws y Cwmni, gan gynnwys datblygiad deunyddiau hyfforddi i weithwyr rheng flaen drwy gydol y system.

Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; 2 eirdd boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac oedolion ynghyd ag atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig Hamdden Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y sefydliad. Mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r sefydliad allu gweithredu'n ddi-oed pan fydd yn dod ar draws achos o gam-fanteisio.



Manylion Am Yr Unigolyn

Mae'r Manylion yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

Teitl y Swydd: Swyddog Cefnogi Systemau Hamdden

Adran: Gweithrediadau a Chefnogi Busnes

Gradd: 9

Meini Prwaf	Hanfodol	Dymunol	Dull Asusu
Addysg a Chymwysterau	Cymhwyster cydnabyddedig safon HNC neu gyfwerth mewn maes perthnasol	Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn benodol yn y maes systemau / technoleg	Ffurflen Gias / Cyflwyniad

Profiad Perthnasol	Profiad perthnasol mewn swydd cymorth systemau Profiad o fod yn rheolwr atebol i staff o fewn amgylchedd systemau	Profiad o weithio yn y diwydiant hamdden yn benodol Profiad o ddefnyddio HTML o fewn amgylchedd systemau	Ffurflen Gias / Cyflwyniad
--------------------	--	---	----------------------------

Meini Prwaf	Hanfodol	Dymunol	Dull Asusu
Profiad Perthnasol	Datblygu a gweithredu systemau sy'n wynebu cwsmeriaid, a gweithredu systemau cefnogi busnes newydd Profiad o ddarparu adroddiadau ystadegol i Uwch Reolwyr Y gallu i weithredu ac addasu i newid o fewn amgylchedd cefnogaeth busnes, gan gyflwyno ffyrdd newydd, mwy llyfn o weithio o fewn sefydliad Yn gallu cynhyrchu adroddiadau cymhleth, manwl a chywir heb lawer o oruchwyliaeth		Ffurflen Gias / Cyflwyniad

Meini Prwaf	Hanfodol	Dymunol	Dull Asusu
Gwybodaeth a sgillau cysylltiedig a'r swydd	Lefel uchel o gymhwysedd technegol wrth ddatblygu a gweithredu rheoli perfformiad a/neu systemau sy'n wynebu cwsmeriaid Defnyddiwr cymwys iawn o Microsoft Excel a Powerpoint Yn gallu paratoi a chyflwyno adroddiadau manwl i Uwch Reolwyr	Gwybodaeth benodol ac arbenigedd am y diwydiant hamdden Dealltwriaeth o werthoedd Hamdden Sir Ddinbych Cyf Gwybodaeth ymarferol o Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	Ffurflen Gias / Cyflwyniad / Prwaf
Rhinweddau Personol	Unigolyn llawn cymhelliant gyda'r gallu i weithio ar ei liwt ei hun/ fel rhan o dîm. Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i ddelio â materion sensitif a chymhleth mewn modd call a sicr	Diddordeb yn y diwydiant hamdden	Ffurflen Gias / Cyflwyniad

Meini Prwaf	Hanfodol	Dymunol	Dull Asusu
Rhinweddau Personol	Gallu adeiladu a chynnal perthynas effeithiol a chefnogol gyda chyfoedion a phartneriaid ar bob lefel ac ar draws sefydliadau Yn gallu cymell eich hun gydag etheg waith gref Lefel uchel o sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol a'r gallu i ddehongli data er mwyn llunio casgliadau a gwneud argymhellion priodol Yn hyderus wrth gyflwyno gwybodaeth gymhleth Gallu blaenoriaethu gwaith, delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a bodloni terfynau amser. Cyfeillgar ac agos atoch		Ffurflen Gias / Cyflwyniad



Meini Prwaf	Hanfodol	Dymunol	Dull Asusu
Gofynion Eraill	Empathi at y Gymraeg a diwylliant Cymreig. Gallu teithio ar draws Sir Ddinbych Gallu trin data mewn modd cyfrinachol a sensitif	Rhugl yn y Gymraeg	Ffurflen Gias



Diolch am eich diddordeb.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'n Swyddog Arweiniol – Gweithredoedd a Chefnogaeth Busnes, Andy Moreland ar 01824 706724 / 07880300420 / andy.moreland@hamddensirddinbych.co.uk.



www.hamddensirddinbych.co.uk



Hamdden Sir Ddinbych



@Hsirddinbych